

FFORDD Y GROES

Michel Quoist

Mae Crist yn dal i farw. Mae'n dal i offrymu ei hun i'w Dad er prynedigaeth y byd drwy'r rhai sy'n dioddef ac yn marw o'n cwmpas. Mae Ffordd y Groes hefyd yn ffordd i fywyd; ni ddylai unrhyw Gristion fyth ei hanghofio.

1 MAE IESU'N CAEL EI GONDEMNIO I FARWOLAETH

Arglwydd, mae'n rhy hwyr i ti gadw'n ddistaw, rwyd wedi dweud gormod;
rwyd wedi brwydro'n rhy galed;
Nid oeddet yn ddoeth, fe aethost yn rhy bell, roedd hyn yn sicr o ddigwydd.
Gelwaist y bobl orau'n epil gwiberod;
Fe ddywedaist fod eu calonnau megis beddrodau, yn wyn y tu allan ond yn ddu y tu fewn;
Cusanaist y gwahangleifion pydredig;
Siaradaist yn ddi-ofn gyda dieithriaid annerbyniol;
Torraist fara gyda phechaduriaid, a dywedaist mai puteiniaid fyddai'r cyntaf i gyrraedd teyrnas nefoedd;
Buost gyfeillgar gyda'r tlodion, y cardotion, a'r cleifion;
Buost ysgafn o'r rheolau crefyddol;
Dim ond un gorchymyn yw dy ddehongliad di o'r ddeddf: i garu.
Ac yn awr maent yn dial arnat.
Maent wedi cymryd camau yn dy erbyn; wedi cysylltu â'r Awdurdodau a bydd y rheini'n gweithredu'n dy erbyn.

Arglwydd, mi wn y caf innau fy nghondemnio os ceisiaf fyw ychydig fel tydi.

Mae arnaf ofn.

Maent yn pwyntio bys ataf yn barod.

Mae rhai'n gwenu arnaf, eraill yn chwerthin, rhai wedi'u syfrdanu ac mae amryw o'm ffrindiau ar fin fy nhorri allan.

Mae arnaf ofn aros.

Ofn gwrando ar ddoethineb dynion.

Mae'n sibrdw; rhaid i ti symud ymlaen ychydig ar y tro, ni ellir cymryd popeth yn llythrennol, mae'n well cymodi gyda'r gelyn...

Ond eto, Arglwydd, mi wn mai ti sy'n iawn.

Cynorthwya fi i frwydro,

Cynorthwya fi i siarad,

Cynorthwya fi i fyw dy Efengyl,

Hyd y diwedd,

Hyd at ffolineb y Groes.

2 MAE IESU'N CARIO'I GROES

Arglwydd, dyma dy Groes.

Dy Groes di! Fel petai'n Groes i ti!

Nid oedd gennyd ti groes a daethost i nôl ein croes ni, a thrwy dy fywyd, ac ar hyd y ffordd i Galfaria, fe gymeraist arnat dy hun, fesul un, bechodau'r byd.

Mae'n rhaid i ti fynd yn dy flaen,

A phlygu,

A dioddef. Mae'n rhaid cario'r Groes.

Arglwydd, rwyd yn cerdded ymlaen yn dawel; a yw'n wir felly, fod amser i siarad ac amser i fod yn ddistaw?

A yw'n wir fod amser i frwydro ac amser i gario'n dawel ein pechodau'n hunain a phechodau'r byd?

Arglwydd, buasai'n well gennyf ymladd y Groes; mae'n anodd ei chario. Y mwyaf yr af yn fy mlaen, y mwyaf a welaf o ddyrgioni'r byd, a'r trymaf yw'r Groes ar f'ysgwyddau.

Arglwydd, cynorthwya fi i ddeall, os nad yw hefyd yn dawel achubol, nad yw'r weithred fwyaf hael yn ddim.

A chan mai ti sydd eisiau i mi droedio ffordd faith y Groes,

Ar doriad gwawr, bod dydd, cynorthwya fi i gamu 'mlaen.

3 MAE IESU'N DISGYN AM Y TRO CYNTAF

Fe syrthiodd.

Am ennyd fe wegiodd, ac yna disgynnodd ar ei hyd,

Duw yn y llwch.

Ac felly, Arglwydd, dilynais ti, gan gamu 'mlaen yn hyderus, ac yn awr rwyf wedi syrthio.

Meddyliais imi roi fy hun i ti am byth, ond gwelais flodyn ar fy llwybr.

Gadewais ti, a gadewais y Groes feichus, a dyma fi oddi ar y ffordd, gydag ond ychydig betalau wedi gwywo, a'm hunigrwydd.

Ac mae eraill, Arglwydd, yn mynd heibio ar y ffordd, yn ddrylliedig ac wedi ymlâdd,

Ac mae croesau'n cael eu gwneud a chefnau'n plygu.

Nid wyf i yno bellach i ymladd drygioni ac i gynorthwyo dynion i lusgo'u beichiau.

Yr wyf oddi ar y ffordd.

Arglwydd, cynorthwya fi nid yn unig i'th ddilyn ond i symud ymlaen yn wastad,

Cadw fi rhag gwendidau sydyn sy'n fy ngadael yn syfrdan a gwag, ymhell o ble rwyf ti'n llunio'r byd.

4 MAE IESU'N CYFARFOD Â'I FAM

Arglwydd, rwyf yn tosturio dros dy Fam druan.

Mae hi'n dilyn,

Mae hi'n dy ddilyn di,

Mae hi'n dilyn dynol ryw ar ei Ffordd y Groes.

Mae hi'n cerdded ymysg y dorf, heb ei hadnabod, ond nid yw'n tynnu ei llygaid oddi arnat.

Mae pob osgo, pob ochenaïd, pob trawiad, pob archoll, yn treiddio i'w chalon.

Mae hi'n gwybod faint yr wyt ti'n ddiodef,

Mae hi'n diodef dy ddiodefaint,

A heb ddod yn agos atat

heb dy gyffwrdd

heb siarad â thi,

Arglwydd, gyda thi mae hi'n achub y byd.

Yn aml, ymysg y dorf, rwy'n cerdded gyda dynion ar eu

Ffordd y Groes,

Ac yn cael fy llethu gan ddrygioni.

Teimlaf na fedraf achub y byd; mae'n rhy drwm a phwdr, a phob diwrnod rwy'n cyfarfod ag amhurni ac anghyfiawnderau newydd ar droad y ffordd.

Arglwydd, dangos i mi dy Fam, Mair,

Yr un anobeithiol, yr un diddim yng ngolwg dynion,

Ond y gyd-wardwraig yng ngolwg Duw.

Cynorthwya fi i gerdded ymysg dynion, yn awyddus i wybod am eu digalondid a'u pechodau.

Na fydded i mi droi fy llygaid.

Na fydded i mi gau fy nghalon, ac wrth groesawu diodefïadau'r byd, gyda Mair dy Fam, bydded i mi ddiodef ac achub.

5 MAE SIMON O GYRENE'N CYNORTHWYO IESU I GARIO'I GROES

Aeth heibio ar y ffordd;

Fe'i gorfodwyd i gynorthwyo,

Y cyntaf i ddod heibio, dieithryn.

Arglwydd, derbyniaist ei gymorth.

Nid oeddet yn dymuno cael cymorth cyfaill, y cysur ddaw o arwydd o gariad, cymorth dirwgnach rhywun sy'n malio.

Dewisaist gymorth rhywun difater ac ofnus, dan orfodaeth.

Arglwydd Hollalluog, fe geisiaist gymorth analluog ddyn.

Drwy dy ddewis dy hun yr wyt ti ein hangen ni.

Arglwydd, rwyf angen eraill.

Mae ffordd dyn yn rhy galed i'w throedio ar fy mhen fy hun.
Ond rwy'n osgoi'r dwylo sy'n ymestyn i'm cynorthwyo,
Rwyf eisiau gwneud pethau ar fy mhen fy hun,
Rwyf eisiau ymladd, ar fy mhen fy hun,
Rwyf eisiau llwyddo ar fy mhen fy hun.
Ac eto mae ffrind yn cydgerdded â mi, priod, brawd, cymydog a chydweithiwr.
Rwyf wedi'u gosod wrth fy ymyl Arglwydd, ac rwyf yn eu hanwybyddu'n rhy aml.
Ond, gyda'n gilydd byddwn yn achub y byd.
Arglwydd, hyd yn oed os ydynt wedi'u gorfodi, gad i mi weld, gad i mi dderbyn pob Simon sydd ar fy ffordd.

6 MAE GWRAIG YN SYCHU WYNEB IESU

Am amser hir, Arglwydd, roedd ei llygaid arnat;
Dioddefodd dy ddiodefaint.
Yn methu ei ddiodef ymhellach, fe wthiodd y milwyr o'r neilltu a sychu dy wyneb â chadach o liain main.
A argraffwyd dy wynepryd gwaedlyd ar ei chadach? Efallai.
Ar ei chalon, yn sicr.

Arglwydd, mae gofyn i mi feddwl amdanat am amser hir, yn ddiuedd, fel mae brawd bach yn edmygu ac yn caru ei frawd mawr.
Oherwydd, yr wyf eisiau dod yn fwy tebyg i ti, ac er mwyn hynny, rhaid i mi yn gyntaf edrych arnat.
Os mynni, dof ychydig yn fwy tebyg i ti, gan fod ffrindiau sy'n caru'i gilydd yn dod yn un.
Ond, Arglwydd, yr wyf yn mynd heibio i ti'n rhy aml, yn ddiotal, neu'n diflasu wrth aros i edrych arnat.
Ac, i eraill, mae'n rhaid nad wyf yn ddim ond cysgod trist ohonot.
Maddau i mi fy nghorff, mor eiddgar am bleserau; nid yw'n dy gyflwyno di i bobl eraill
Maddau i mi fy llygaid pwl, ni wêl eraill dy oleuni ynddyn nhw.
Maddau i mi fy nghalon mewn llyffethair: ni wêl eraill dy gariad di ynddi.
Serch hynny, Arglwydd, tyrd ataf; mae fy nrws yn agored.

7 MAE IESU'N DISGYN AM YR AIL DRO

Arglwydd, rwyf wedi llwyr ddiffygio.
Disgynnaist unwaith eto.
Y tro yma, rwyf yn disgyn nid yn unig o dan bwysau'r Groes, ond o flinder llwyr.

Mae diodefaint cyson yn pylu'r ewyllys.
Mae fy mhechodau, Arglwydd, yn pylu fy nghydwbybod.
Rwyf yn dygymod â drygioni'n gyflym iawn:
Ychydig hunan foddhad yma,
Ychydig anffyddlondeb draw,
Gweithred annoeth ymhellach ymlaen,
Ac mae fy ngolwg yn pylu; nid wyf mwyach yn gweld y rhwystrau,
Nid wyf mwyach yn gweld pobl eraill ar fy ffordd.
Mae fy nghlustiau'n graddol gau; nid wyf bellach yn clywed cwynion dynion.
Caf fy hun ar y llawr, ar y paith, ymhell o'r ffordd yr wyt ti wedi'i gosod o'm blaen.
Arglwydd, erfyniaf arnat, cadw fi'n ifanc yn f'ymdrechion,
Arbed fi rhag caethiwed arfer, sy'n suo i gysgu ac yn lladd.

8 MAE IESU'N CERYDDU MERCHED JERWSALEM

Maen nhw'n wylo.
Maen nhw'n beichio wylo.
Mae'n hawdd deall wrth weld yr hyn a wnaeth dynion iddo.
Ac maen nhw'n ddi-rym, allan nhw ddim ymyrryd,
Felly maen nhw'n wylo, yn wylo mewn tosturi.
Arglwydd, fe'u gwelaist, ac fe'u clywaist

Ond dywedaist, “Wylwch yn gyntaf dros eich pechodau”.
Rwyf yn llwyddo’n hawdd iawn, Arglwydd, i dosturio dros dy ddioddefiadau a thros ddioddefiadau’r byd.
Ond, wylo dros fy mhechodau fy hun, mae hynny’n fater arall.
Mae’n well gennyf gwyno am bechodau pobl eraill,
Mae’n haws.
Rwy’n hen gyfarwydd â hyn; ac â’r byd i gyd drwy fy nhribiwnlys bob dydd.
Daethom ar draws digonedd o euogrwydd: mewn gwleidyddiaeth, economeg, slymiau, alcohol, ffilmiau, diwydiant. Fe’u gwelaf mewn llawer un: Mewn Cristionogion ffwrdd a hi, mewn offeiriadon sy’n deall dim; ac mewn amryw eraill, Arglwydd, amryw eraill.
Yn wir, yn y byd i gyd, bron, heblaw ynof i fy hun.
Arglwydd, dysg i mi mai pechadur ydwyf.

9 MAE IESU’N DISGYN AM Y TRYDYDD TRO

Eto.
Nid wyt yn symud, er holl drawiadau’r milwyr.
Arglwydd, a wyt ti wedi marw?
Na, dim ond wedi llwyr ddiffygio.
Ennyd o bryder arswydus.
Ond rwyf yn codi eto, fel ag yr wyt, Arglwydd, ac yn cerdded ymlaen. Un cam, ac yna un arall.....
Arglwydd, syrthiaist am y trydydd tro, ond y tro yma yn agos at Galfaria.
Eto.
Rwyf i’n syrthio pob tro.
Chyhaeddia’ i byth.
Ond dywedais hynny o’r blaen, Arglwydd, maddau i mi, oherwydd yr oeddet ti yno gyda mi, nid oeddet ond yn profi fy ffydd.
Os wyf yn digalonni , mae wedi darfod arnaf.
Os wyf yn dal ati i frwydro, rwyf wedi fy achub.
Canys disgynnaist ti y trydydd tro, a thithau bron â chyrraedd Calfaria.

10 MAE IESU’N CAEL EI DDINOETHI

Nid oedd gennyf ddim ar ôl ond dy glogyn;
Roeddet yn hoff ohono, dy Fam dy hun oedd wedi’i weu.
Ond roedd raid i hwn fynd hefyd.
Dim ond un peth sydd ei angen, Arglwydd, dy Groes.
Erbyn hyn does dim yn dod rhyngot ti â’r Groes,
Cewch eich uno am byth,
A chyda’ch gilydd byddwch yn achub y byd.
Ac felly, Arglwydd, rhaid i mi roi’r gorau i’r holl bethau sy’n fy nghlymu wrth y byd, sy’n fy rhwystro ac yn fy nghuddio o’th olwg.
Y ‘meddu’ hwn sy’n mygu’r ‘bodolaeth’ ynof ac yn fy ngwahanu oddi wrth eraill.
Felly, Arglwydd, fesul tipyn, rhaid i bopeth yn fy mywyd nad yw’n fynegiant o’th ewyllys, farw.
Nid wy’n hoffi hyn, Arglwydd. Mae’n wastad yn gwestiwn o farw!
Rwyf yn gofyn cymaint!
Rwy’n rhoi, ond rwyf ti’n gofyn am fwy.
Hoffwn gadw ychydig bethau,
Pethau yr wyf yn glynu wrthynt, a phethau nad fedraf eu cynnig i ti.
Ond os wyt eisiau popeth Arglwydd, cymer bopeth.
Dinoetha fi, dinoetha fi dy hun o’r dilledyn olaf.
Canys gwn yn iawn fod rhaid i ni farw i haeddu byw.
Fel mae’n rhaid i’r had farw i droi’n ronynnau aur.

11 MAE'R IESU'N CAEL EI HOELIO AR Y GROES

Arglwydd, rwyt ti'n ymestyn ar dy hyd ar y Groes.

Yno.

Does dim amheuaeth, mae wedi'i gwneud ar dy gyfer.

Rwyt yn ei gorchuddio'n llwyr, ac i sicrhau dy fod yn glynu ati, rwyt yn caniatáu dynion i'th hoelio'n ofalus arni.

Arglwydd, roedd yn waith da, yn waith cydwybodol.

Nawr, rwyt yn ffitio dy Groes yn union, fel mae darnau'r peiriannydd yn ateb patrwm y cynllunydd.

Rhaid oedd cael y cywirdeb yma.

Ac felly, Arglwydd, rhaid i minnau gasglu fy nghorff, fy nghalon, fy enaid,

Ac ymestyn fy hun ar fy hyd ar y groes yr ennyd hon.

Nid oes gennyf hawl i ddewis pren fy nioddefaint.

Mae'r Groes yn barod, yn ôl fy mesur.

Rwyt yn ei chyflwyno i mi bob diwrnod, bob munud, a rhaid i mi orwedd arni.

Nid yw'n hawdd. Mae'r ennyd hon mor gyfyng fel nad oes lle i mi droi.

Ac eto, Arglwydd, ni allaf dy gyfarfod di yn unlle arall.

Yno rwyt ti'n fy aros.

Yno byddwn, gyda'n gilydd, yn achub ein brodyr.

12 MAE IESU'N MARW AR Y GROES

Ychydig fwy o oriau.

Ychydig fwy o funudau,

Ychydig fwy o eiliadau.

Am dri deg tri o flynyddoedd aeth hyn ymlaen.

Am dri deg tri o flynyddoedd bu dy fywyd yn llawn, funud ar ôl munud.

Ni allu ddianc mwyach, nawr; rwyt yno, ar ddiwedd dy fywyd, ar ddiwedd y daith.

Cyrhaeddaist y pellter eithaf, hyd at ymyl y dibyn.

Rhaid i ti gymryd y cam olaf,

Cam olaf cariad,

Y cam olaf o fywyd sy'n gorffen mewn angau.

Rwyt ti'n oedi.

Mae tair awr yn hir, tair awr o ing;

Hirach na thair blynedd o fywyd,

Hirach na thri deg o flynyddoedd o fywyd.

Rhaid i ti benderfynu, Arglwydd, mae pob peth yn barod o'th amgylch.

Rwyt ti yno, yn ddiymadferth, ar dy Groes.

Rwyt ti wedi ymwrthod â phob dim ond cofleidio planciau'r groes y cefaist dy wneud ar eu cyfer.

Ac eto, mae bywyd yn dal yn dy gorff dan hoelion.

Bydded i'r cnawd farw, a pharatoi'r ffordd at dragwyddoldeb.

Nawr, mae bywyd yn llithro o bob un o'th aelodau, un fesul un, gan ganfod lloches yn ei galon sy'n dal i guro.

O galon ddifedur,

O galon sy'n gorlifo.

Calon mor drom â'r byd, calon sy'n cario byd o bechodau a thrallod.

Arglwydd, un ymdrech arall.

Mae dynol ryw yno, yn disgwyl yn ddiarwybod am lef ei Iachawdwr.

Mae dy frodyr yno; maent dy angen.

Mae dy Dad yn plygu drosot, yn barod yn dal ei freichiau allan i ti.

Arglwydd achub ni,

Achub ni.

Wele.

Cymerodd ei galon drom,

Ac,

Yn araf,

Yn llafurus,

Ar ei ben ei hun rhwng nefoedd a'r ddaear,
Yn arswyd y nos,
Gyda chariad angerddol,
Casglodd ei fywyd,
Casglodd bechodau'r byd,
Ac mewn un llef,
Rhoddodd ei *oll*.
O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd.
Mae Crist newydd farw drosom.
Arglwydd, cynorthwya fi i farw drosot.
Cynorthwya fi i farw drostynt hwy.

13 MAE IESU'N CAEL EI OSOD YM MREICHAU'I FAM

Mae dy waith wedi'i gyflawni,
Cei adael dy Groes,
Cei ddod i lawr i orffwys, yn sicr rwyf yn ei haeddu.

Yn araf rwyf yn llithro i lawr, fel dyn blinderus gan lafur ac yn swrth o gwsg.
Mae dy Fam yn dy gymryd yn ei breichiau.
"Drycha'r golwg arnat ti; doeddet ti ddim yn ddoeth, buost farw wedi ymlâdd.
Efallai nad oedd y Tad yn gofyn am gymaint."
Ond rwyf yn gorffwys mewn hedd.
Daw dros dy wyneb, tawel a thangnefeddus, belydryn o lawenydd.
Gorffennwyd.
Gwnaethost i'th Fam ddiodeff, ond mae hi'n falch ohonot.
"Cwsg yn awr, fy mychan, mae dy Fam yn gwylio drosot."

Ac felly, bob nos, ar derfyn fy niwrnod, fe syrthiaf innau i gysgu.
Y fath olwg sydd arnaf weithiau, Arglwydd.
Ond gwae fi, nid am i mi wasanaethu'r Tad, bob amser, y cefais fy llygru a'm diffygio.
Mair, a fyddi di'n fodlon, er hyn, i wyllo drosob bob nos?

Mae fy nghorff dan bwn ei fethiannau ond mae fy nghalon yn erfyn am faddeuant.
Paid anghofio, ti yw noddfa pechaduriaid.
Sanctaid Fair, Fam Duw, gweddiâ drosob i, bechadur gwael.
Caniatâ, drwy haeddiannau dy Fab, nad wyf byth yn syrthio i gysgu heb dderbyn maddeuant ein Tad.
A phob nos, wrth orffwys yn nhangnefedd dy freichiau, gad i mi ddysgu sut i farw.

14 MAE IESU'N CAEL EI OSOD YN Y BEDD

Gad i ni ei anghofio.
Ac i bawb fynd adref.
Mae wedi'i gladdu a'r maen wedi'i osod.
Mae ei deulu mewn dagrau, a'i ffrindiau ar goll.
Mae drosodd y tro hwn.

Arglwydd, nid yw drosodd.
'Rwyf ti'n diodeff hyd at derfyn amser', mi wn.
Mae dynion yn troedio Ffordd y Groes bob un yn eu tro.
Fydd yr Atgyfodiad ddim yn gyflawn nes iddynt gyrraedd pen eu taith.
Rwyf ar y ffordd; mae gen i ran fechan yn dy ddiodeffaint ac mae gan eraill eu rhan hwythau.
Gyda'n gilydd yr ydym yn dy gynorthwyo di i gario'r baich, y baich a gymeraist ti a'i wneud yn ddwyfol.
Yno y gorwedd fy ngobaith, Arglwydd, a'm hymddiriedaeth ddiysgog.

Nid oes damaid o'm ychydig dioddefaint nad wyt ti wedi'i fyw'n barod a'i weddnewid yn achubiaeth dragwyddol.

Pan yw'r ffordd yn galed a diflas,

Pan fo'n arwain at y bedd,

Tu hwnt i'r bedd, gwn dy fod yn disgwyl amdanaf yn dy ogoniant.

Arglwydd, cynorthwya fi i deithio ar fy ffordd yn deilwng, yn fy lle priodol yng ngorymdaith enfawr dynol ryw.

Cynorthwyaf fi, uwch bob dim, i'th adnabod di, ac i'th gynorthwyo di ym mhob un o'm cyd-bererinion.

Canys buasai'n gelwydd wylo gerbron dy gerflun di fywyd, os nad wyf yn dy ddilyn di, wrth fyw, ar y ffordd y teithia dynion.

Cyfieithiad: Sue Roberts